O disgynned yma nawr

Caneuon Ffydd: Rhif 588

O disgynned yma nawr
Ysbryd Crist o'r nef i lawr;
boed ei ddylanwadau ef
yn ein plith fel awel gref:
a gorffwysed ef a'i ddawn
ar eneidiau lawer iawn.

I ddarostwng drwy ei ras
ynom bob anwiredd cas,
a'n prydferthu tra bôm byw
ar sancteiddiol ddelw Duw,
rhodded inni'n helaeth iawn
o'i rasusol, ddwyfol ddawn.

Yn ei law y dygir llu
at yr Iesu'r Ceidwad cu,
am faddeuant a rhyddhad
yn ei glwyfau ef yn rhad:
gwerth y gwaed a'r aberth mawr,
O datguddied ef yn awr.

MINIMUS, 1808–80

MYFYRDOD

Pan mae'r Ysbryd Glân yn disgyn, mae pawb yn gwybod bod hynny wedi digwydd. Pan ddaeth ar ddydd cyflawniad y Pentecost roedd 'sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro' i'w glywed yn llenwi'r lle (Actau 2:1–4), ac roedd pawb yn gweld ei ddylanwad wedyn yn eu plith. Yn nhŷ Cornelius 'Synnodd y credinwyr Iddewig … am fod rhodd yr Ysbryd Glân wedi ei thywallt' (Actau 10:45). Nid oedd neb heb wybod bod rhywbeth arbennig iawn wedi digwydd yn eu plith ac roedden nhw'n synnu at ddawn yr Ysbryd Glân i wneud gwahaniaeth ac i beri i bobl nad oedden nhw gynt yn rhan o deulu'r ffydd gael eu geni drachefn yn blant i Dduw.

Gwyddai John Roberts hefyd am effeithiau'r Ysbryd Glân ac na ellid ei anwybyddu pan ddeuai i'w plith. Mae'r emyn hwn yn ffrwyth ei weddïo dwys yn ystod y cyfnod pan oedd yn byw yn yr Wyddgrug, ar i'r diwygiad mawr, oedd wedi cychwyn yng Nghymru yn y flwyddyn 1859 ac a oedd yn prysur ledaenu ar hyd a lled y wlad, gyrraedd Sir y Fflint a Lerpwl lle cafodd ei fagu.

Gwyddai hefyd beth oedd bod yn ddarostyngedig i Grist a chael ei 'ddarostwng drwy ei ras'. Dywed rhai mai'r rheswm am ei ddefnydd o'r ffugenw 'Minimus' – y lleiaf un – oedd am nad oedd yn fawr o fardd nac o awdur, ond credwn fod yma enghraifft o'r un gostyngeiddrwydd ag a barodd i Paul ei alw ei hun 'y lleiaf o'r apostolion' (1 Cor. 15:9). Cofiwn, yn ogystal, nad yno y darfu gostyngeiddrwydd Paul, ac fe'i cawn ef yn ei alw ei hun y blaenaf o'r pechaduriaid wrth ysgrifennu at Timotheus ar ddiwedd ei yrfa (1 Tim.1: 15). Yr Ysbryd Glân ar waith ynom, felly, sy'n ein galluogi i ddweud fel Ioan Fedyddiwr: 'Rhaid iddo ef gynyddu ac i minnau leihau' (Ioan 3:30). Ef sydd yn ein sancteiddio a'n dwyn yn ôl ar ddelw Duw fel y dangoswyd honno inni yn Iesu Grist ei Fab.

Tybed a oes yna wefr fwy na'r un a geir pan ddown â rhywun arall at Iesu a hwnnw, neu honno, yn cael credu ynddo gan ymddiried ei hunan iddo? Dyna fu braint Andreas brawd Pedr: 'Y peth cyntaf a wnaeth oedd cael hyd i'w frawd, Simon', a 'Daeth ag ef at Iesu' (Ioan 1:41–42). Ond yr Ysbryd Glân sy'n rhoi ffydd ac argyhoeddiad wedi i ninnau wneud ein gwaith o ddwyn rhai at Iesu; 'Yn ei law y dygir llu', meddai Minimus, ac ef sy'n dangos ac yn datguddio gwerth aberth Iesu drosom hefyd, yn ei ddangos inni'n Geidwad. Fel y dywedodd Iesu ei hun wrth Pedr ar ôl i hwnnw wneud ei ddatganiad mawr: 'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw' (Mth. 16:16), 'nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn iti ond fy Nhad, sydd yn y nefoedd' (Mth. 16:17). Gwnaeth Andreas ei ran ef yn y gwaith, ond yr Ysbryd Glân ei hun sy'n datguddio ac yn argyhoeddi. Ein braint ninnau ydy cael ein defnyddio yn llaw Duw a bod yn gydweithwyr ag ef fel Minimus yn y gwaith o ddwyn llu 'at yr Iesu'r Ceidwad cu'.

GWEDDI

Diolch iti, fy Nhad, nad fy ngwaith i yn y pen draw ydy argyhoeddi pobl o 'werth y gwaed a'r aberth mawr' a wnaed trosom bob un gan Iesu Grist. Cymell fi i weddïo, O Dad, yn daer am gael gweld dylanwadau'r Ysbryd Glân yn eglur i bawb yn ein plith ni eto yn ein hardaloedd. Yn enw Iesu. Amen.